

Y COFIANNAU DIDDOROL CYMRAEG

gan D. BEN REES

RHAID cydnabod fod cofiannau Cymraeg a Saesneg yn fy ngorfodi i brynu yn gyson, misol bron, yr hyn a ddaw o'r gwahanol gwmmiau cyhoeddi. Y tro hwn canolbwyntiaf ar rai o'r cofiannau na chaiff sylw o gwbl bellach, a chyfaddefaf mai chwaeth bersonol sy'n gyfrifol am y dewis yn y lle cyntaf. Dewisir nid o angenrheidiol am fod y gwrthrych yn adnabyddus, neu yn bwysicach fyth yn enwog ac felly yn haeddu cofiant, ond yn reit aml fe brynaf y cofiant Cymraeg o sillf y siop ail-law yng Nghaerdydd neu Aberystwyth am y manylion na cheir hwy yn unman arall.

Cymerer, er enghraifft, y gyfrol *Bywyd a Gwaith Ebenezer Davies, Llanerchymedd*, a sgrifennwyd gan William Pritchard, Pentraeth ac a gyhoeddwyd yn ninas Bangor. Nid oes dyddiad cyhoeddi ond mae'r gyfrol yn werth £4 heddiw. Pam prynu'r cofiant? Nid oedd bywyd Ebenezer Davies yn un arbennig o ddiddorol: bywyd undonog gweinidog ymneilltuol yng nghanol gwlad Môn ydyw ac yn byw yn un o'r canolfannau, Llanerch-y-medd. Ond y mae'r cofiant hwn yn chwared o wybodaeth, i ddechrau, am y manylion a rydd am gyfleusterau addysg ar yr ynys. Bendithiwyd tref fechan Llanerch-y-medd ag ysgolion fel Ysgol Evan Thomas ac Ysgol y Parch. J. Richards, un o ysgolion mwyaf blaengar y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Dyn o flaen ei oes oedd John Richards, aelod o'r Cymrodorion a chyfoeswr a'r athrylith (a benthyca disgrifiad Ieuan Gwynedd ohono): *'David Richards ('Dafydd Ionawr'; 1751-1827) athro beirdd, a brawd i Iorwyn Ddu, Lerpul.'*

Ceir darlun byw ryfeddol yn y cofiant hefyd o'r pregethwr John Elias a'i gyngor gwreiddiol iddo yn y Cyfarfod Misol cyntaf iddo ei fynychu yn Llanddona, *'Peidiwch a bod fel neb ond chwi eich hun. Pan gyhoeddir Ebenezer Davies mewn rhyw gapel neu gilydd gofalthwch mai Ebenezer Davies fydd yno fel efe ei hun, ac nid neb arall yn cael ei ddywared.'*

Cofiant yw hwn i werinwr o bregethwr na adawodd Ynys Môn mwy nag a wnaeth Thomas Williams, Gwalchmai mewn dyddiau i ddilyn ar wahân i un daith i'r ddinas fawr Llundain. Gwerinwr ydoedd na chafodd fanteision addysg prifysgol ond yn ŵr craff, sylwgar ac yn ddeallus. Roedd ef hefyd yn wreiddiol fel ag yn ei ddisgrifiad o John Elias yn frwdfrydig o blaid yr Efenigyl: *'Ystrifllyn teneu, eiddil, barfog, blewog a gwregys o groen ynghylch ei lwynau yn ysleifio mynd yn ddarbed ar draws y*

mynyddoedd a thros y cloddiau, heb ofalu am lwybr na ffordd pan ar nages ei Dduw; ac fe allai y byddai ar adegau yn cael ambell lift gan angel.'

Gallai daro'r hoelen ar ei phen pan soniodd am anghysondeb aml grefyddwr: *'Nid oes dim yn fwy anghyson na bod dyn yn gadael ei feddwl ar hyd ei oes fel cafn mochyn i ddal pob slobbs drefwedig a daslo y cythraul iddo, a'r dyn hwnnw drachefn yn gwenieithio iddo ei hun y caiff fyned i'r nefoedd yn y diwedd i ddal tragwyddol bwys gogoniant.'*

Mae'r gwrthdaro gwleidyddol a ddisgrifir gan John Pritchard yn bwysig, y frwydr rhwng John Elias fel Ceidwadwr a nifer o'i gyd-weinidogion yn y gweryll Rhyddfrydol. Mae'r wybodaeth yn ffynhonnell ddbynadwy. Mae sylw Ebenezer Davies yn werth ei gofnodi: *'Cefais fy nwyn i fynd mewn cyfundeb oedd yn dysgu mai ein dyledswydd ni oedd byw yn llynydd a heddychlon mewn pob duwoledeb a gonestrwydd, a bod ymyryd â phethau gwladol yn afreidiol os nad yn bechadurus. Do! dygwyl fi i fynd o ran y pethau hyn oll fel iâr o dan y badell.'*

Rhoddir hefyd fanylion yn y cofiant am gynnydd yr Ysgolion Sul ac am ei arhosiad ef — arhosiad trist y dylwn ei ddweud — yn ninas Llundain ddiwedd 1861 a dechrau 1862. Sgrifennodd yn ei ddyddiadur am 13 Ionawr: *'Blinedig iawn. Adfywio ychydig cyn y cyfarfod eglwysig yn y nos! Go brin fod gweinidogion y wlad yn deall y blinder corfforol a ddaw wrth weinidogaethu mewn dinas fawr, ac yn wir, y mae'n cynyddu fel ag y mae'r ganrif hon yn diflannu.'*

Cawn olwg hefyd yn y cofiant ar dlodi gweinidog ymneilltuol yng nghanol y ganrif ddiwethaf ac am lythyr, 26 Mawrth 1869, at y Parch. R. Hughes (Gaerwen) yn cyflwyno manylion am werthiant ei gyfrol *Y Fasedaid Briwfydd* a ddaeth o'r wasg yn 1867. Roedd Ebenezer Davies yn byw ar ddeuddeg swllt yr wythnos a'i bryder mawr oedd sut y medrai dalu bil y meddyg. Gwyddai Aneurin Bevan am yr ofn hwnnw yn Nhredegar a daeth yr ofn yn ôl i'n bywydau ni y werin heddiw.

Cofiant diddorol arall yw *Cofiant a Chasgliad o Weithiau Barddonol y Parch. Robert Owen, Llundain* gan y Parch. G. Parry, Aberystwyth. Cyhoeddwyd y gyfrol hardd hon gan y Cymro alltud, John Roberts, Salford, a'i hargraffu yn Chapel Street yn 1880. Byddwn yn ddigon parod i dalu £10 am gyfrol yn cyflwyno'r bardd a'r emynydd, Eryron Gwyllt Walia (1803-70). Ganwyd ef 3 Ebrill 1803 yn

Ffridd-Bala-Deulyn, yn agos i Dal-y-sarn (cartref R. Williams-Parry yn ddiweddarach), Dyffryn Nantlle. Yn y gyfrol ceir cyfraniadau gan y Parchedigion D. C. Davies, Jewin a'r Dr Owen Thomas (ei gyn-weinidog), Mr J. W. Jones a llythyr gan y cofiannydd mawr ei hun, taid Saunders Lewis. Yn un ar hugain oed gadawodd Robert Owen Ddyffryn Nantlle am Lundain a bu yno hyd ei farwolaeth, 22 Awst 1870. Mae'r cofiant yn bwysig am ddau reswm: (a) y casgliad o'i waith barddonol a'i emynau cyfoethog a ddaeth allan o brofiadau'r cystudd mawr; (b) ei lythron i'w deulu o Lundain rhwng 1824 a 1832. Ceir darlun o'r pellter affwysol rhwng Llundain a thref Caernarfon, y gwahaniaeth rhwng byw yn mhentref Croydon, deng milltir o Lundain, a byw mewn rhyw dreflan fechan Gymraeg fel Caernarfon. Y mae'r Cymro yn fwy busneslyd, y mae hefyd (o leiaf yr oedd felly) yn deall y gymdogaeth dda. Nid yw'r Sais erioed wedi rhoddi pwys ar y gymdogaeth dda ond yn yr ardaloedd difreintiedig, diwydiannol. Dyma brofiad Eryron Gwyllt Walia yn Croydon yn 1825: *'Yma gall fod cynnydog yn byw yn y tŷ nesaf i ni, heb i ni gael cymaint ag un olwg arno yng nghorff deng mlynedd o amser; pryd y galkoch chwi wybod agos pwy driga ym mhob ystafell o bob tŷ, ym mhob heol tref bob parth o ryw bentref bychan fel eich tref chwi.'*

Diddorol hefyd yw cael darlun o ŵr yn aeddfedu fel radical Cymraeg ac yntau yn Fethodist Calfinaidd, aeddfedu cymaint fel ag iddo ffeiddio y llywodraeth annemocrataidd. Cefnogodd Ddiwygio'r Senedd (gweler ei lythyr 2 Mai 1831) mewn geiriau cryf a di-flewyn-ar-dafod.

Y trydydd cofiant yr wyf am roddi hwb iddo yw *Cofiant a Phregethau y Diweddar Barchedig William Roberts, D.D., Utica, N.Y.* gan y Parch. E. C. Evans, Remsen, Talaith Efrog Newydd. Y cyhoeddwr T. J. Griffith, Utica. Argraffwyd y gyfrol yn 131 Genesee Street yn 1890. Roedd Dr William Roberts, yn arloesydd a elwir yn Dad Methodistaeth Calfinaidd Cymraeg yn yr Unol Daleithiau. Mae'r cofiant hwn yn werth pob ceiniog o'r £15 os gellir dod o hyd i gopi. Mae'n ddiddorol gan y rhodda grynnodeb byr am brif symudiadau y cyfeillion Methodistaidd Calfinaidd yn America ar un llaw, ac ar y llaw arall, weithgarwch llenyddol Dr William Roberts yn golygu Y *Cyfaill* (un o bapurau Cymraeg America) ac yn hybu am bedair

blynedd (1857-61) argraffiad Americanaidd o gylchgrawn uchel-ael Y *Traethodydd*, yn cynnwys adrannau mwyaf darllenadwy y cylchgrawn a gyhoeddwyd yn Ninbych. Ond bu'r arbrawf yn fethiant. Llosgodd ei fysedd yn go arw. Diflannodd dau gant o ddoleri trwy ei anturiaeth ddigon derbyniol. Rhaid cymeradwyo'r cofiant am y manylion a geir am yr ymfudo o Gymru i Ogledd America. Meddyliar am y rhai a adawodd gylchoedd Llŷn i gartrefu yn Remsen a Steuben, yn nhalaith Efrog Newydd a lle y cychwynnodd achos crefyddol Cymraeg mewn ardal a elwir hyd heddiw yn Penyaerau (tudalennau 115-122). Bendith fo ar ein hatgofion am y croeso mawr a gafodd llond bws ohonom yn Utica a'r cyffiniau. Croeso bythgofiadwy. Sonir am Gymry yn ymfudo o weithiau glo Mynwy a Morgannwg i Carbondale, Pensylfania. Y mae'r hanes yn wfreiddiol a dyna pam fod cofiant Dr William Roberts mor ddiddorol.

Dyna godi cwr ar dri chofiant y mae'n werth dod o hyd iddynt a mawr obeithiaf y caf gyfle i sôn am eraill yn un o rifynnau nesaf Y *Casglur*.

YN EISIAU

Ceinion y Gân (llyfr canu), mewn hen nodiant os yn bosib, neu sol-ffia; neu gopi o'r gân 'Y Ddeilen ar yr Afon'. **Llanberis, ei Hanes, ei Phobl a'i Phethau** gan G. Tecwyn Parry (1908).

Llên Gwerin Sir Gaernarfon.

Cysyllter â: **Gwilym J. Roberts, Cerrig Drudion, Nant Peris, Caernarfon, Gwynedd LL55 4UN. Ffôn: (01286) 871327.**

* * * * *
Golwg ar y Byd yn cynnwys Briwsion oddiar fyrddau y Dysgedigion gan Dafydd Lewys, Llangatwg, Morgannwg. Llanrwt, 1735 neu 1825.

Thomas & Evans - William Evans by Owen Vernon Jones. Ysgol y Porth, 1934?

Hynafiaethau, Cofiannau a Hanes Presennol Nant Nantlle gan W.R. Ambrose, 1872.

Meirionnydd cyfres 1 (12 rhifyn), 1947; cyfres 2 (12 rhifyn), 1948; cyfres 4 (12 rhifyn), 1956; **Cymru Fydd 2** (1889); **Cymru Fydd 3** (1890).

Cysyllter â'r Golygydd ar (01678) 540652.